
# Ailddilysu Rhaglenni

Y cylch Archwilio Ansawdd



# Ailddilysu

- Sicrhau bod rhaglenni’n gyfredol ac yn ‘addas i’r diben’
- Sicrhau bod rhaglenni'n cyd-fynd â 'datganiadau meincnod pwnc' ac ymarfer gorau yn y sector
- 'Cadw' manylion rhaglenni ar gyfer cofnodion canolog, ac i'w defnyddio mewn Setiau Gwybodaeth Allweddol ac ati
- Gall gynnwys 'achredu' gan gorff proffesiynol
- Cefnogi’r Ysgol yn ei datblygiad hirdymor

# Datganiadau Meincnod Pwnc

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

- Mae datganiadau meincnod pwnc yn nodi disgwyliadau ynghylch safonau graddau mewn ystod o feysydd pwnc. Maent yn disgrifio'r hyn sy'n rhoi cydlyniad a hunaniaeth i ddisgyblaeth, ac yn diffinio'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan raddedigion o ran y galluoedd a'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu dealltwriaeth neu gymhwysedd yn y pwnc.
- Cânt eu datblygu gan baneli o arbenigwyr mewn gwahanol bynciau
- Ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau ar lefel israddedig a rhai ar lefel Meistr
- Cyhoeddir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code/subject-benchmark-statements

# Y Panel Ailddilysu

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

- Y Pennaeth Gwella Ansawdd a Dilysu (neu rywun a enwebwyd o’r Gronfa Ddilysu)
- Dau gynrychiolydd o’r Gronfa Ddilysu (ni chânt fod yn aelodau o’r Ysgol sy’n cyflwyno'r cynnig)
- Arbenigwr Pwnc Allanol.
- Cynrychiolydd proffesiynol neu gyflogwyr, lle bo’n briodol
- Swyddog Sicrhau Ansawdd (ysgrifennydd y panel)
- Myfyriwr-adolygwr

# Swyddogaeth y Myfyriwr-Adolygwr

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

- Cyfrannu at y broses adolygu
- Ni ddisgwylir iddo fod yn arbenigwr pwnc
- Edrych ar y rhaglen o safbwynt myfyriwr

# Dogfennaeth

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

1. Y ddogfen hunan-werthuso o'r archwiliad ansawdd mewnol diweddar
2. **Manylebau rhaglen ar gyfer pob rhaglen**
3. Copïau o ffurflenni adolygu rhaglenni blynyddol (QA1) diweddar
4. Copïau o adroddiadau diweddar gan arholwyr allanol
5. Copi o'r archwiliad ansawdd mewnol diweddaraf sy'n berthnasol i'r rhaglenni
6. Copïau o lawlyfrau cwrs
7. **Copïau o'r holl frasluniau modiwlau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni i'w hailddilysu**

Mae'r broses ailddilysu yn tueddu i ganolbwyntio ar 2 a 7

# Y Digwyddiad Ailddilysu

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

- Y panel ailddilysu ynghyd â chynrychiolwyr o'r Ysgol sy'n cyflwyno’r cynnig
- Cyflwyniadau, dan arweiniad y Cadeirydd
- Trosolwg o'r rhaglenni gan gynrychiolydd arweiniol yr Ysgol
- Sylwadau cychwynnol gan yr Arbenigwr Pwnc Allanol ac aelodau'r panel
- Trafod manylebau rhaglenni
- Trafod modiwlau

# Rhaglenni Academaidd

- Rhaglenni israddedig (BA, BSc, BMus, BEng ac ati)
  120 credyd y flwyddyn x 3 blynedd
- Rhaglenni israddedig estynedig (MChem, MEng, MSci, MArts)
  120 credyd y flwyddyn x 4 blynedd
- Rhaglenni Meistr
  MA, MSc, MBA, MMus: 120 credyd hyfforddedig a thraethawd hir 60 credyd
  MRes: 60 credyd hyfforddedig a thraethawd hir 120 credyd

Mae myfyrwyr yn astudio 60 credyd bob semester

# Manylebau Rhaglenni

- Dogfen sy’n diffinio’r rhaglen
- Teitl, cymhwyster a chymwysterau ymadael hanner ffordd
- Nodau a chanlyniadau'r rhaglen
- Gwybodaeth am sut y caiff ei haddysgu a'i hasesu
- Gwybodaeth am gynnwys y rhaglen – rhestr o fodiwlau ar gyfer pob blwyddyn

# Beth ddylech chi ganolbwyntio arno?

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

- Tystiolaeth o 'gynnydd' academaidd – o bynciau sylfaenol i bynciau uwch
- Amrywiaeth o ddulliau addysgu – seminarau, darlithoedd, gwaith maes neu waith ymarferol, lleoliad gwaith?
- Amrywiaeth o ddulliau asesu
- Eglurder gwybodaeth o safbwynt myfyriwr
- Cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu a dangos sgiliau.